# Gofalu am fy merch

Wedi 20 mlynedd o ofalu, meddyliais efallai y byddwn yn cael rhywbeth cyfwerth â thelegram gan y Frenhines drwy'r post i ddathlu'r ffaith fy mod yn dal ar fy nhraed. Ar fy nhraed a chyda fy hiwmor yn parhau i fod yn bresennol ar y cyfan. Nid wyf wedi gweithredu ar y meddyliai agos at lofruddiog yr wyf wedi eu cael weithiau tuag at ffrind diystyriol neu weithiwr proffesiynol dideimlad, a chredaf fod hynny hefyd yn haeddu cymeradwyaeth.

Ar ddechrau'r daith ofalu hon, cefais wybod gan weithiwr proffesiynol oedd ag ychydig iawn o sgiliau pobl, os o gwbl, bod pobl 'yn fy sefyllfa i' yn cael eu plant wedi'u mabwysiadu yn aml, a chynigiodd fy rhoi mewn cysylltiad â rhywun i drefnu hynny. Roedd yn ffodus fod ei eiriau wedi fy syfrdanu cymaint, neu mae'n bosibl y byddwn wedi colli'r hyn yr oeddwn yn ymffrostio amdano uchod yn syth bin. Yn hytrach na derbyn ei gynnig annymunol, dechreuais wegian trwy gyfres o ofidiau, heriau, rhwystrau a chyfnodau hirdymor o golli cwsg. Roedd yn anodd, ond deuthum i'w ddeall, i ddatblygu ffyrdd o ymdopi ac, yn amlach na pheidio, i ragweld yr argyfwng nesaf.

Fodd bynnag, ni ragwelais y pethau da. Roeddwn wedi paratoi fy hun ar gyfer argyfyngau, ac yn canfod, pan fyddai pethau da yn digwydd, fy mod yn gwbl amharod ar eu cyfer. Yn ymarferol, dysgais yn hir neu'n hwyrach i weithio gyda gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, meddygon ymgynghorol, therapyddion, gweithwyr cymorth, arbenigwyr addysg ac ati. Derbyniais gael dieithriaid yn fy nhŷ yn gofyn cwestiynau am fy nheulu, yn busnesa yn fy mywyd preifat ac yn gwneud ffordd arferol o fyw yn hen hanes. Nid bywyd a newidiodd. Fi a newidiodd.

Gwnaeth fy agwedd newydd fy helpu i ymdrin â'r sylwadau ansensitif neu'r llythyrau ac e-byst difeddwl. Deuthum i gwrdd â gofalwyr anhygoel a daeth Cynnal Gofalwyr yn noddfa i mi mewn byd gwallgof. Roeddwn yn gwerthfawrogi'r ymdrechion go iawn gan unigolion ac yn gweld faint o hapusrwydd yr oedd fy merch yn medru ei chynnig i gymaint o bobl. Nid oeddwn yn goddef unrhyw weithwyr proffesiynol nad oedd yn gwneud fy merch yn ganolog i unrhyw broses, yn ei hanwybyddu ac yn siarad â mi dros ei phen. Rwyf wedi dweud wrth fwy nag un meddyg ymgynghorol nad wyf am iddynt weithio â hi mwyach ac rwyf wedi dod o hyd i un gwahanol.

Yn bwysicach oll, nid oeddwn yn sylweddoli cymaint y medrai fy merch

ei rhoi i mi. Mae’r hyn y mae wedi’i roi yn hael i mi bob dydd yn amhrisiadwy. Rwyf wrth fy modd yn ei chlywed yn cyhoeddi yn uchel ac yn hapus pan fydd yn mynd i’r llyfrgell (dawel) leol, “Fi yma”, gan daflu eu breichiau yn llydan a swyno staff y llyfrgell. Rwyf mor falch o’i charedigrwydd, yn rhoi ei losin olaf i rywun. Pan allai ond ddweud tri gair, cofiaf ryfeddu mae un o’r geiriau hyn oedd ‘plîs’. Pan wyf yn teimlo’n isel, rwy’n gweld ei hwyneb a chaf fy llonni drachefn. Efallai na chefais y telegram hwnnw gan y Frenhines, ond rwyf wedi cael llawer mwy.

~ Delyth Lloyd Williams